# Gofalu am iechyd a lles ceffylau a’u monitro fel mater o drefn

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu am iechyd a lles ceffylau a'u monitro fel mater o drefn. Mae'n cynnwys monitro cyflwr corfforol ac ymddygiad ceffylau fel mater o drefn, adnabod arwyddion salwch a chloffni, nyrsio ceffylau sâl a darparu triniaethau arferol.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. gofalu am geffylau fel mater o drefn mewn ffordd sydd yn gwella eu hiechyd a'u lles
3. monitro iechyd a lles, cyflwr corfforol ac ymddygiad ceffylau yn rheolaidd, a hysbysu'r person priodol am yr hyn a arsylwir
4. cynnal mesurau penodol i hybu iechyd a lles ceffylau, yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. cael eglurhad pan nad yw'r cyfarwyddiadau'n glir
6. cynorthwyo arbenigwyr i ofalu am geffylau
7. arsylwi ceffylau ar ôl i fesurau penodol gael eu sefydlu a hysbysu'r person priodol ar unwaith am eu cyflwr, ar lafar neu'n ysgrifenedig
8. darparu gwybodaeth glir a chywir at ddibenion cofnodi
9. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd
10. cynnal lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch yn unol â'r cyfarwyddiadau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fonitro iechyd a lles anifeiliaid ac adnabod arwyddion o iechyd da a salwch
3. sut i adnabod argyfwng o ran iechyd ceffyl a phryd i alw goruchwylydd
4. sut i ddarparu mesurau ataliol fel mater o drefn yn cynnwys rheoli parasitiaid
5. sut i adnabod ceffyl cloff a chynnal triniaethau sylfaenol
6. sut i adnabod a thrin mân anhwylderau
7. sut i adnabod dysychu mewn ceffylau
8. anatomeg a ffisioleg sylfaenol ceffyl, yn cynnwys y systemau traul ac ysgerbydol
9. pryderon cyffredinol yn ymwneud â cheffylau
10. cyfyngiadau eich cyfrifoldeb a phwy y dylid eu hysbysu ynghylch anawsterau
11. peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill, a sut y gellir lleihau'r rhain
12. y cofnodion y mae angen eu cynnal wrth ofalu am iechyd a lles ceffylau a'u monitro
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol
14. pwysigrwydd hylendid a bioddiogelwch i les ceffylau, a sut y gellir cyflawni hyn.

## Geirfa

Mân anhwylderau fel:

- chwydd cenglau
- sodlau wedi hollti

Triniaethau sylfaenol ar gyfer ceffylau cloff fel:

- chwistrellu oer
- ymolchi

Arbenigwyr:

- milfeddyg
- technegydd deintyddol ceffylau
- gof/torrwr carnau

Mesurau ataliol:

- cael gwared â llyngyr
- brechu
- gofal traed

Pryderon lles cyffredinol:

- clefydau
- anabledd
- plâu
- trawma

LANEq203

Gofalu am iechyd a lles ceffylau a'u monitro fel mater o drefn

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq203 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; cloffni; iechyd a lles anifeiliaid |